

Camymddwyn

Canllaw i ganolfannau

1. Cyflwyniad

Diben y canllaw hwn yw rhoi arweiniad a chefnogaeth i ganolfannau sy'n cynnig cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol CBAC. Fe'i lluniwyd yn benodol i gefnogi ganolfannau gydag atal, adrodd ac ymchwilio i achosion o gamymddwyn. Mae adrannau'r canllaw yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Diffinio camymddwyn
- Cyfrifoldebau
- Atal camymddwyn
- Adrodd am gamymddwyn
- Ymchwilio i gamymddwyn
- Penderfyniadau a sancsiynau
- Apeliadau

Dylid darllen y canllaw hwn gyda dogfen gyfredol y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) '**Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Aseidiadau: Polisiâu a Gweithdrefnau.**' Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC. www.icq.org.uk

Gellir cysylltu â Thîm Camymddwyn CBAC ar malpractice@wjec.co.uk neu ffonio 02920 265000 i gael arweiniad pellach am weithdrefnau camymddwyn.

Beth yw camymddwyn?

Camymddwyn

Ystyr 'camymddwyn', **sy'n cynnwys camweinyddu a diffyg cydymffurfio**, yw unrhyw weithred, diffyg neu arfer sy'n torri gofynion CBAC a/neu ofynion rheoleiddio sy'n:

- Cyfaddawdu, yn ceisio cyfaddawdu neu a allai gyfaddawdu'r broses asesu, cywirdeb unrhyw gymhwyster neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif; **a/neu**
- Yn niweidio awdurdod, enw da neu hygredd unrhyw sefydliad dyfarnu neu ganolfan neu unrhyw swyddog, gweithiwr neu asiant unrhyw ganolfan neu gorff dyfarnu.

Mae methiant gan ganolfan i ymchwilio i honiadau bod camymddwyn wedi'i amau yn unol â gofynion y ddogfen hon a methiant i weithredu yn ôl gofynion CBAC neu i gydwethredu â'n hymchwiliad hefyd yn gamymddwyn.

Ystyr '**camymddwyn gan staff y ganolfan**' yw:

- camymddwyn gan aelod o staff neu contractiwr (pa un ai yw wedi'i gyflogi dan gytundeb cyflogaeth neu gytundeb am wasanaethau) mewn canolfan; **neu**

- unigolyn a benodir mewn swydd arall gan ganolfan megis goruchwyliwr, addasydd iaith lafar, cynorthwydd ymarferol, anogwr, darllenydd, ysgrifennydd neu ddehonglydd iaith lafar.

Mae enghreifftiau o gamymddwyn staff y ganolfan yn cynnwys torri diogelwch, twyll, cymorth amhriodol i ymgeiswyr a chamweinyddu.

Ystyr '**camymddwyn gan ymgeisydd**' yw camymddwyn gan ymgeisydd yn ystod unrhyw arholiad neu asesiad, gan gynnwys wrth baratoi a dilysu unrhyw asesiadau dan reolaeth neu waith cwrs, cyflwyno unrhyw waith ymarferol, crynhoi portffolios o dystiolaeth asesu ac ysgrifennu unrhyw bapur arholiad.

Mae enghreifftiau o gamymddwyn gan ymgeisydd yn cynnwys cyflwyno deunyddiau heb eu hawdurdodi yn yr ystafell arholiad, torri amodau arholiad, cyfnewid, cael, derbyn neu drosglwyddo gwybodaeth a allai fod yn ymwneud â'r arholiad, tramgwydd yn ymwneud â chynnwys gwaith yr ymgeisydd a thanseilio cywirdeb yr arholiadau/asesiadau.

Mae rhestr gynhwysfawr o'r holl fathau o gamymddwyn gan staff y ganolfan ac ymgeiswyr ar gael yn nogfen y CGC '**Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Aseidiadau: Polisiâu a Gweithdrefnau.**'

Pwy sy'n gyfrifol am atal, adrodd am ac ymchwilio i'r achosion o gamymddwyn mewn canolfan?

Pennaeth y Ganolfan sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau ei fod yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal camymddwyn gan staff ac ymgeiswyr. Hefyd, mae'n **rhaid** i bennaeth y ganolfan:

- Hysbysu CBAC cyn gynted â phosibl am unrhyw amheuan o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol (oni bai am asesiadau dan reolaeth cyn i ymgeisydd lofnodi'r ffurflen ddilysu) gan ddefnyddio ffurflen JCQ/M1 (ymgeisydd) a ffurflen JCQ/M2a (staff).
- Goruchwilio'r holl ymchwiliadau'n bersonol, gan osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau real neu ganfyddadig, a allai anfanteisio ymchwiliad.
- Cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad, gan ymateb yn gyflym ac yn agored.
- Hysbysu aelodau o staff ac ymgeiswyr am eu cyfrifoldebau a'u hawliau
- Anfon unrhyw rybuddion neu gosbau at yr unigolion dan sylw, a sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw geisiadau a wneir gan CBAC.

Mae swyddogaeth gan unigolion eraill yn y ganolfan megis y Swyddog Arholiadau, athrawon a goruchwylwyr, i atal ac adrodd am achosion o gamymddwyn. Gall fod gofyn i rai ohonynt ymchwilio i ddigwyddiadau hefyd. Dylai pob aelod o staff dderbyn yr hyfforddiant digonol a bod yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau'n unol â gofynion cynnal arholiadau ac asesiadau dan reolaeth.

2. Atal camymddwyn

Yn ymarferol, gall Pennaeth y Ganolfan wneud sawl peth i leihau neu i ddileu'r perygl o gamymddwyn.

Atal camymddwyn gan staff

- Sicrhau bod staff yn deall gofynion cynnal arholiadau fel y nodwyd yn ***nogfen y CGC 'Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau'***
- Sicrhau bod staff yn deall y gofynion ar gyfer asesiadau dan reolaeth a gwaith cwrs fel y nodwyd yn nogfennau'r CGC ***'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth (cymwysterau TGAU)'*** a ***'Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs (cymwysterau TAG, TLM a Phroject)'***. Mae'n ofynnol i ganolfannau gael polisi ar asesiadau dan reolaeth a fydd yn cael ei wirio fel rhan o'r drefn ymweliadau arolygu canolfannau. Rhaid cadw asesiadau dan reolaeth a gwaith cwrs byw yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser.
- Sicrhau bod staff sy'n gwneud cais am amodau arbennig a threfniadau mynediad ac yn goruchwyllo'r trefniadau hynny yn ymwybodol o'r gofynion ***'CGC Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr ag anabledau ac anawsterau dysgu' a CGC 'Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig'***. Rhaid i'r ganolfan gadw tystiolaeth i gefnogi ceisiadau mynediad a dylai'r dystiolaeth hon fod ar gael i'w harchwilio fel rhan o ymweliadau arolygu canolfannau y CGC.
- Sicrhewch fod y staff i gyd yn gwybod gweithdrefnau'r ganolfan ar gyfer adrodd am achosion o gamymddwyn i CBAC.
- Sicrhau bod y posteri perthnasol i arholiadau, ***CGC Ffôn Symudol a Rhybudd i Ymgeiswyr*** yn cael eu harddangos mewn man amlwg.
- Sicrhau bod y ***ddogfen CGC 'Gwybodaeth i ymgeiswyr (asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, profion ar-sgrin ac arholiadau ysgrifenedig)*** yn cael ei dosbarthu i bob ymgeisydd cyn i'r asesiad/arholiad ddigwydd.

Yn ogystal, rhaid cynnwys camymddwyn ar gofrestr asesiad risg a chynllun gweithredu canolfan er mwyn sicrhau bod atal camymddwyn yn ymhlyg yn y ffordd o weithio yn y ganolfan.

Atal camymddwyn gan ymgeiswyr

Rhaid i staff y ganolfan sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gweithredoedd sy'n cyfrif fel camymddwyn a'r gosb y byddai'r rheiny sy'n camymddwyn yn ei derbyn. Bydd atgoffa rheolaidd yn helpu i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o beth yw camymddwyn.

Ffonau symudol: Yr adroddiad mwyaf cyffredin o gamymddwyn gan ymgeiswyr a dderbynnir gan CBAC yw bod gan ymgeiswyr ffôn symudol neu ddyfais arall yn eu meddiant mewn ystafell arholiad. Dylid pwysleisio wrth ymgeiswyr y bydd bod â ffôn symudol yn eu meddiant yn arwain at gollu marciau am yr uned honno hyd yn oed os nad ydynt yn bwriadu defnyddio'r ffôn neu os oeddent wedi anghofio bod y ffôn ganddyn nhw. Os oes tystiolaeth bod ymgeiswyr wedi defnyddio dyfais, byddai gwneud hynny'n arwain at ddiarddel o'r cymhwyster. Dylid atgoffa goruchwylwyr am

bwysigrwydd darllen yn uchel y cyfarwyddyd am ffonau symudol a dyfeisiau eraill ar ddechrau arholiadau.

Achos cyffredin arall o gamymddwyn yw llên-ladrad. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod peiriannau chwilio rhyngwyd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol yn cael eu defnyddio i ganfod llên-ladrad.

Nid yw anwybodaeth am gamymddwyn yn eich amddiffyn rhagddo ac nid yw'n ffactor lliniarol a gaiff ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.

3. Adrodd am gamymddwyn

Camymddwyn gan ymgeiswyr

Dylai Pennaeth y Ganolfan, neu uwch athro penodol ymchwilio ar unwaith i unrhyw honiad o gamymddwyn neu i unrhyw achos o gamymddwyn a ganfyddir . Yna dylid cyflwyno adroddiad i CBAC gan ddefnyddio'r ffurflen **JCQ/M1** (mae'r ffurflen gyfredol ar gael yn www.jcq.org.uk). Dylid anfon yr adroddiad i CBAC, Tîm Camymddwyn, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX. Fel arall, gellir sganio'r ffurflen a'r dystiolaeth ategol a'u hanfon ar e-bost at malpractice@wjec.co.uk. Rhaid cynnwys llofnod a'r dyddiad ar y ffurflen.

Gall y ganolfan ymdrin â chamymddwyn ymgeisydd mewn asesiad mewnol ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi llofnodi datganiad dilysrwydd. Mewn achosion o'r fath, ni ddylid derbyn y gwaith asesiad mewnol oedd yn cael ei gwblhau pan ddigwyddodd y camymddwyn. Gall yr ymgeisydd, yn amodol ar gyfyngiadau'r fanyleb, ymgymryd â gwaith newydd i'w gyflwyno. Penderfyniad y ganolfan fydd hynny. Rhaid i'r ganolfan gael gweithdrefn apeliadau mewnol yn ei lle i ymdrin ag apeliadau'n erbyn ei phenderfyniadau am asesiadau mewnol. Os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysrwydd, rhaid cyflwyno adroddiad am yr achos o gamymddwyn i CBAC.

Camymddwyn gan staff y ganolfan

Rhaid cyflwyno adroddiad am bob achos o gamymddwyn gan staff y ganolfan i CBAC gan ddefnyddio ffurflen y CGC **JCQ/M2a** a'i hanfon i CBAC, Tîm Camymddwyn, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX. Fel arall, gellir sganio'r ffurflen a'r dystiolaeth ategol a'u hanfon ar e-bost at malpractice@wjec.co.uk. Rhaid cynnwys llofnod a'r dyddiad ar y ffurflen

Bydd CBAC ei hun yn cynnal yr ymchwiliad os yw'r Pennaeth neu aelod uwch o staff y ganolfan yn gysylltiedig ag unrhyw honiad. Mewn achosion eraill, gofynnir i'r Pennaeth neu aelod uwch penodol o staff ymchwilio i'r achos ac i ddarparu adroddiad manwl (**ffurflen JCQ/M2b**).

RHAID CYFLWYNO ADRODDIAD I CBAC AM BOB ACHOS O GAMYMDDWYN HONEDIG. NI DDYLAI STAFF Y GANOLFAN WNEUD PENDERFYNIADAU YNGHYLCH CYFLWYNO ADRODDIAD AM ACHOS I CBAC AI PEIDIO. OS NA CHYFLWYNIR ADRODDIAD AM GAMYMDDWYN YNA MAE HYNNY'N GAMYMDDWYN GAN STAFF Y GANOLFAN.

Beth y dylwn ei wneud os wyf yn amau camymddwyn?

Os ydych yn credu eich bod wedi bod yn dyst i gamymddwyn, dylech gysylltu â Phennaeth eich Canolfan yn y lle cyntaf. Mae'n ddyletswydd arno yntau/arni hithau i ymchwilio i bob achos o'r fath ac i adrodd amdany'n nhw.

Os credwch y gallech fod o dan anfantais neu'n dioddef oherwydd eich bod wedi codi materion o'r fath â Phennaeth eich Canolfan neu os credwch bod eich Uwch Dîm Rheoli ynghlwm â'r mater yna gallwch chi gysylltu â CBAC. Gall unigolion gyflwyno adroddiadau anhysbys am gamymddwyn neu wneud cais i aros yn anhysbys. Ni fydd CBAC yn enwi unigolyn oni bai bod gofyn gwneud hynny yn ôl y gyfraith. Ni ellir defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei darparu'n ddiennw. Fodd bynnag, gall gwybodaeth o'r fath fod yn sail i ymchwiliad, neu roi achos tebygol dros ymchwilio. Er mwyn cefnogi unrhyw ymchwiliad posibl dylech ddarparu ar unwaith yr holl wybodaeth rydych chi'n ymwybodol ohoni. Bydd darparu gwybodaeth sy'n fanwl, amserol a chlir yn galluogi i ni ymchwilio achosion yn fwy effeithiol (gweler adran 4 ar y math o wybodaeth sy'n bwysig).

Os oes gennych wybodaeth ynglŷn â chamymddwyn gallwch ffonio CBAC (02920 265000) a gofyn am gael siarad ag aelod o'r Tîm Camymddwyn, ysgrifennu at yr Isadran Camymddwyn, CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX neu anfon e-bost at malpractice@wjec.co.uk.

Mae gwybodaeth bellach ynghylch sut i wneud honiad i'w chael yn nogfen y CGC ar y Ddeddf Datgelu Budd y Cyhoedd www.jcq.org.uk

Ni fydd CBAC yn adrodd canlyniad achosion i'r sawl sy'n gwneud yr honiadau. Byddai gwneud hynny'n datgelu gwybodaeth freintiedig sydd yn aml yn destun y Ddeddf Gwarchod Data.

4. Ymchwilio i gamymddwyn

Dylai'r ymchwiliad i gamymddwyn honedig gael ei gynnal gan unigolyn (unigolion) yn y ganolfan nad oes ganddo/ganddi unrhyw wrthdaro buddiannau real na chanfyddedig yn yr achos.

Mae'r cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol wrth asesu a oes gwrthdaro buddiannau yn bodoli ai peidio mewn perthynas ag ymchwiliad i gamymddwyn gan aelod o staff:

- A allai'r ymchwiliwr elwa'n ariannol yn bersonol neu gael mantais neu anfantais i'w enw da oherwydd canlyniad yr ymchwiliad?
- A oes gan yr ymchwiliwr berthynas bersonol neu berthynas broffesiynol agos â'r cyhuddedig?
- A fu methiant yn y berthynas rhwng yr ymchwiliwr (neu'r rheiny yn eu rhwydwaith proffesiynol agos) a'r cyhuddedig?
- A fu methiant yn y berthynas rhwng yr unigolyn sy'n gwneud yr honiad a'r ganolfan/staff?

Os atebwyd 'oes/do' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod a neb arall yn y ganolfan i gynnal yr ymchwiliad, dylai pennaeth y ganolfan ofyn i CBAC ymchwilio'n uniongyrchol. Os nad oes

unrhyw wrthdaro buddiannau real na chanfyddedig, dylai'r Pennaeth (neu gynrychiolydd) gynnal yr ymchwiliad.

Dylai'r ymchwiliad benderfynu:

- pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad, gan gynnwys ymgeiswyr, aelodau o staff a/neu oruchwylwyr
- ffeithiau'r achos, wedi'u profi o dystiolaeth a/neu ddatganiadau gan y sawl sydd ynghlwm â'r mater

Mae angen rhoi ystyriaeth unigol i bob ymchwiliad, fodd bynnag mae'r canlynol yn rhoi arweiniad cyffredinol i ganolfannau:

- Ar y dechrau, dylid pwysleisio wrth bawb mai honiad o gamymddwyn yw'r wybodaeth a dderbyniwyd ac mai pwrpas yr ymchwiliad yw canfod y ffeithiau.
- Penderfynwch pwy ddylai ymchwilio i'r honiad/digwyddiad yn y ganolfan, ar ôl rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.
- Sicrhewch fod yr ymchwiliwr arweiniol yn gwbl sicr beth yw gofynion CBAC a pha ffurflenni i'w llenwi. Sicrhewch fod cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth yn cael eu pwysleisio.
- Gofynnwch i'r ymchwiliwr (ymchwilwyr) gadw cofnod o bob trafodaeth a gweithred yn ystod ymchwiliad fel tystiolaeth eu bod wedi cynnal ymchwiliad teg, agored a manwl gywir o'r achos. Dylid cadw gwybodaeth am gyfnod perthnasol o amser. Os yw'r ymchwiliad yn rhan o erlyniad troseddol neu achos sifil, dylid cadw cofnodion a dogfennau am y cyfnod gofynnol o amser ar ôl yr achos ac hyd nes y clywir unrhyw apelïadau.
- Rhowch wybod i'r unigolyn (unigolion) sy'n cael eu cyhuddo o gamymddwyn ar y cyfle cyntaf beth yw natur yr honiad, yn ysgrifenedig fyddai orau, gan ddweud wrthynt beth fydd y canlyniadau posibl pe byddai'r camymddwyn yn cael ei brofi. Rhowch wybod iddynt pa hawliau sydd ganddynt – **rhaid** iddynt gael y cyfle i ymateb, yn ysgrifenedig fyddai orau, i'r honiad a wneir yn eu herbyn.
- Nodwch yr holl ffynonellau tystiolaeth posibl wrth ymchwilio i'r achos ac ystyriwch sut byddai modd casglu'r dystiolaeth yn fwyaf effeithiol ac effaithlon ee cyfweiliadau ag unigolion, cofnodion ysgrifenedig, taflenni presenoldeb, lluniau camerâu cylch cyfyng. Mae'n bwysig casglu'r wybodaeth cyn gynted â phosibl gan y gallai tystiolaeth gael ei cholli.
- Wrth gyfweled unigolion, paratowch gwestiynau ymlaen llaw a gwnewch nodyn i'w ddychwelyd iddyn nhw i'w lofnodi a'i ddyddio fel cofnod cywir. Dylid cynnal cyfweiliadau'n unol â pholisïau'r ganolfan. Efallai yr hoffai'r cyfwelydd gael unigolyn gydag ef i wneud nodiadau.
- Dylid dilyn polisi (polisïau) y ganolfan wrth gynnal cyfweiliadau â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.
- Coladwch yr holl dystiolaeth a gesglir – yr hyn ddigwyddodd (natur y camymddwyn), pam y digwyddodd, pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad, pa bryd ac ymhle y digwyddodd, sut mae angen i'r ganolfan weithredu i atal rhywbeth fel hyn rhag digwydd eto.
- Cwblhewch yr adroddiad i CBAC gan ddefnyddio ffurflen **JCQ/M1 (ymgeiswyr)** a **JCQ/M2b (staff)** gan sicrhau bod yr holl wybodaeth ategol wedi'i chynnwys megis datganiadau ysgrifenedig (sicrhewch fod yr unigolyn wedi gwirio, llofnodi a dyddio'r rhain), copïau o ohebiaeth, gwaith ymgeiswyr, cofnodion.

Awdur: Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaeth Cwsmeriaid Diwygiad 01

Dyddiad:

Os bydd honiad yn cael ei ddirprwyo i aelod arall o staff y ganolfan, pennaeth y ganolfan sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol o hyd am yr ymchwiliad.

Mae cyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau*, yn rhoi manylion llawn a chanllawiau am y drefn i'w dilyn wrth ymdrin ag achosion o gamymddwyn honedig, a gellir ei llwytho i lawr oddiar wefan y CGC: www.icq.org.uk. Bydd Adrannau 2, 6, 7, 10, 13 ac 14 yn ddefnyddiol wrth gynnal ymchwiliad.

5. Gwneud Penderfyniadau a sancsiynau

Penderfyniadau – Camymddwyn gan ymgeiswyr

Aelod uwch o staff CBAC fydd yn penderfynu ar achos o gamymddwyn gan ymgeiswyr. Anfonir llythyr yn nodi'r penderfyniad a wnaed a manylion unrhyw sancsiynau a gymhwyswyd at Bennaeth y Ganolfan ac yntau/hithau wedyn ddylai hysbysu'r ymgeisydd (ymgeiswyr) am gynnwys y llythyr ar ôl ei dderbyn.

Penderfyniadau – Camymddwyn gan y ganolfan a staff y ganolfan

Panel Camymddwyn CBAC fydd yn penderfynu ar achosion o gamymddwyn gan y ganolfan a staff y ganolfan. Bydd y panel hwn yn cynnwys tri unigolyn profiadol y bydd o leiaf un ohonynt yn aelod annibynnol nad yw wedi gweithio i CBAC. Bydd y Panel yn gwneud y penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth ysgrifenedig. Rhoddir cyfle i'r unigolyn (unigolion) dan sylw ddarparu datganiad i'r Panel. Ni chaniateir i gynrychiolwyr canolfannau a/neu'r unigolion y clywir yr achos yn eu herbyn fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel.

Bydd Ysgrifennydd y Panel Camymddwyn yn hysbysu Pennaeth y Ganolfan am y penderfyniad ac am unrhyw sancsiwn. Dylid hysbysu'r aelod o staff am gynnwys y llythyr ar ôl ei dderbyn.

Sancsiynau – camymddwyn gan ymgeiswyr

Ymhlith y sancsiynau a osodir yn erbyn ymgeiswyr mae rhybudd, atal rhai o'r marciau neu'r marciau i gyd a ddyfarnwyd mewn arholiad/asesiad, neu atal y cymhwyster. Mewn achosion mwy difrifol, bydd y sancsiynau'n cynnwys gwahardd ymgeiswyr rhag cofrestru am arholiadau gyda CBAC am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Mewn achosion difrifol, hysbysir holl gyrrff dyfarnu eraill y CGC am yr achosion a'r canlyniadau.

Sancsiynau – camymddwyn gan staff y ganolfan

Ymhlith y sancsiynau a osodir yn erbyn staff y ganolfan mae rhybudd, gosod amodau arbennig, y gofyn am oruchwyliaeth neu ailhyfforddiant, neu wahardd y staff dan sylw rhag ymwneud â gwaith arholiad am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

Sancsiynau – camymddwyn gan y ganolfan

Ymhlith y sancsiynau a osodir yn erbyn canolfan mae rhybudd ysgrifenedig, y gofyn am gynllun gweithredu, monitro ychwanegol, atal ardystiad, atal ymrestriad ac ardystiad, tynnu'n ôl y gymeradwyaeth am gymwysterau penodol, tynnu'n ôl cymeradwyaeth y ganolfan.

Lle bynnag mae camymddwyn gan staff y ganolfan neu gan y ganolfan ei hun wedi effeithio ar ganlyniadau'r ymgeiswyr, bydd CBAC yn gweithredu'n briodol i ddiogelu cywirdeb asesiadau a buddiannau'r ymgeiswyr dan sylw. Pan osodir sancsiwn ar aelod o staff y ganolfan a bod yr unigolyn hwnnw'n symud i ganolfan arall, cyfrifoldeb Pennaeth y Ganolfan lle y digwyddodd y camymddwyn yw hysbysu Pennaeth y ganolfan newydd, yn yr achosion hynny lle mae'r sancsiwn yn weithredol o hyd.

Mewn achosion o gamymddwyn gan y ganolfan a staff y ganolfan, bydd CBAC yn hysbysu'r rheoleiddiwr priodol (Llywodraeth Cymru yng Nghymru, Ofqual yn Lloegr a CCEA yng Ngogledd Iwerddon).

Mewn achosion difrifol yn cynnwys twyll, bydd CBAC yn anfon manylion yr achosion ymlaen at yr Heddlu.

Nid yw CBAC yn gwneud unrhyw sylw wrth drydydd person gan gynnwys y cyfryngau am ymchwiliadau o gamymddwyn nac am unrhyw benderfyniadau a wneir.

6. Apeliadau

Rhaid i CBAC dderbyn apeliadau yn erbyn penderfyniadau camymddwyn ymhen 14 diwrnod o dderbyn y canlyniad gan ddefnyddio Ffurflen **JCQ/App1**. Mewn achosion o gamymddwyn gan ymgeiswyr, Pennaeth y Ganolfan a ddylai gyflwyno'r apêl. Mewn achosion o gamymddwyn gan staff y ganolfan, Pennaeth y Ganolfan neu'r unigolyn dan sylw a ddylai gyflwyno'r apêl.

Rhaid i'r rhesymau dros apelio fod yn rhai rhesymol megis:

- Nid oedd yr ymdriniaeth â'r digwyddiad yn unol â'r gweithdrefnau cyhoeddedig yng nghyhoeddiad Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau y CGC.
- Mae tystiolaeth bellach wedi dod i law a allai newid sail y penderfyniad.
- Cred resymol bod y dystiolaeth wedi'i chamddehongli
- Cred resymol nad yw'r canlyniad yn cyfateb i'r canllawiau nac i'r cynseiliau.

Ynddynt eu hunain, nid yw'r canlynol yn rhesymau dros gyflwyno apêl:

- Nid oedd yn fwriad gan yr unigolyn i dwyllo
- Mae cofnod dilychwin gan yr unigolyn
- Gallai'r unigolyn gollu ei le yn y brifysgol neu'r coleg
- Mae'n ddrwg iawn gan yr unigolyn am ei g/weithredoedd.

Gellir gwrthod y cais am apêl ar yr adeg hon os nad oes tystiolaeth newydd neu os yw'r rhesymau dros yr apêl yn rhai gwan neu heb eu cyfiawnhau

Ymgeiswyr – os oes tystiolaeth resymol, bydd Uwch Swyddog yn CBAC nad yw wedi ymwneud â'r achos wreiddiol yn ystyried y dystiolaeth ac yn dod i benderfyniad. Anfonir llythyr at Bennaeth y Ganolfan yn rhoi'r penderfyniad. Os yw'r apelydd yn anfodlon o hyd â'r penderfyniad, yna dylid cyflwyno apêl ail gam i'r Pwyllgor Apeliadau i CBAC ymhen 14 diwrnod. Dim ond yn yr achosion hynny lle mae rhesymau dilys y cyflwynir yr apêl hon i'r Pwyllgor Apeliadau.

Y Ganolfan a staff y ganolfan – os oes tystiolaeth ddigonol, gelwir cyfarfod o Bwyllgor Apeliadau CBAC. Bydd y pwyllgor hwn yn cynnwys o leiaf 3 unigolyn y mae o leiaf un ohonynt yn aelod annibynnol nad yw wedi gweithio i CBAC. Ni fyddant wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol ac ni fydd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.

Bydd Tîm Camymddwyn CBAC yn cysylltu â'r apelydd i wneud trefniadau iddynt fynychu'r Pwyllgor Apeliadau. Os bydd yr apelydd yn dewis peidio â bod yn bresennol, gwneir y penderfyniad ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig. Bydd Tîm Camymddwyn CBAC yn darparu copi i'r apelydd o'r holl bapurau, dogfennau ac adroddiadau sydd i'w hystyried gan y pwyllgor. Bydd yr hawl gan Gadeirydd y Pwyllgor i benderfynu a oes unrhyw dystiolaeth bellach yn dderbyniol i'w rhoi ar y bwrdd yn y gwrandawriad ac a ellir galw tystion.

Dilynir y gweithdrefnau a nodwyd yn nogfen y CGC 'Canllaw i brosesau apelio cyrff dyfarnu' yn y gwrandawriad. Ar ddechrau'r gwrandawriad bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r apelwyr am y broses unwaith yn rhagor.

Mae penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau yn derfynol ac nid oes modd apelio ymhellach.